# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## [F1 RHAN 3A

Y RHEOL GYFFREDINOL YN ERBYN OSGOI TRETHI

*[F1 Trefniadau artiffisial i osgoi trethi*

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhn. 3A wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), **aau. 66**, 81(2)(3); O.S. 2018/34, ergl. 3

### 81B Trefniadau osgoi trethi

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae trefniant yn "trefniant osgoi trethi" os cael mantais drethiannol ar gyfer unrhyw berson yw'r prif ddiben, neu un o'r prif ddibenion, pam y mae trethdalwr yn ymrwymo i'r trefniant.

(2) Wrth benderfynu ai prif ddiben trefniant, neu un o'i brif ddibenion, yw cael mantais drethiannol, caniateir ystyried yn benodol y swm o dreth ddatganoledig a fyddai i'w godi yn absenoldeb y trefniant.

(3) Yn y Rhan hon—

(a) mae "trefniant" yn cynnwys unrhyw drafodiad, unrhyw gynllun, unrhyw weithred, unrhyw weithrediad, unrhyw gytundeb, unrhyw grant, unrhyw ddealltwriaeth, unrhyw addewid, unrhyw ymgymeriad, unrhyw ddigwyddiad neu unrhyw gyfres o unrhyw un neu ragor o'r pethau hynny (pa un a ellir ei orfodi neu ei gorfodi'n gyfreithiol ai peidio);

(b) mae cyfeiriadau at drefniant i'w darllen fel pe baent yn cynnwys—

(i) cyfres o drefniadau, a

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/02/2023.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Trefniadau artiffisial i osgoi trethi. (See end of Document for details)*

(ii) unrhyw ran o drefniant neu unrhyw gam o drefniant sy'n cynnwys mwy nag un ran neu gam;

(c) ystyr "trethdalwr" yw person sy'n agored i dreth ddatganoledig neu a fyddai'n agored iddi oni bai am y trefniant osgoi trethi o dan sylw.

## 81C Trefniadau artiffisial i osgoi trethi

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae trefniant osgoi trethi yn "artiffisial" os nad yw ymrwymo iddo neu ei gyflawni yn weithred resymol mewn perthynas â darpariaethau deddfwriaeth drethi Cymru sy'n gymwys i'r trefniadau.

(2) Wrth benderfynu pa un a yw'r trefniant osgoi trethi yn artiffisial, caniateir ystyried yn benodol—

(a) unrhyw sylwedd economaidd neu fasnachol dilys sydd i'r trefniant (ac eithrio cael mantais drethiannol);

(b) pa un ai canlyniad y trefniant yw bod swm o dreth i'w godi y mae'n rhesymol cymryd nad hwnnw oedd y canlyniad a ragwelwyd pan ddeddfwyd darpariaeth berthnasol deddfwriaeth drethi Cymru.

(3) Ond nid yw trefniant yn artiffisial os oedd, ar yr adeg yr ymrwymwyd iddo neu y'i cyflawnwyd—

(a) y trefniant yn gyson â'r arferion a oedd yn bodoli'n gyffredinol ar y pryd, a

(b) ACC wedi mynegi ei fod yn derbyn yr arfer hwnnw.

(4) Pan fo trefniant osgoi trethi yn rhan o unrhyw drefniadau eraill, rhaid rhoi sylw i'r trefniadau eraill hynny hefyd wrth benderfynu pa un a yw'r trefniant osgoi trethi yn artiffisial.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth drethi Cymru" yw—

(a) Deddfau Trethi Cymru, a

(b) unrhyw is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr adran 21 o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30)) a wneir o dan y Deddfau hynny.

## 81D Ystyr "treth" a "mantais drethiannol

At ddibenion y Rhan hon—

ystyr "mantais drethiannol" ("*tax advantage*") yw—

(a) rhyddhad rhag treth neu gynnydd mewn rhyddhad rhag treth,

(b) ad-daliad treth neu gynnydd mewn ad-daliad treth,

(c) osgoi swm y codir treth arno neu leihau swm y codir treth arno,

(d) gohirio talu treth neu ddwyn ymlaen ad-daliad treth, F2...

(e) osgoi rhwymedigaeth i ddidynnu treth neu roi cyfrif am dreth **[**F3, ac

(f) credyd treth neu gredyd treth uwch.**]**

ystyr "treth" ("*tax*") yw unrhyw dreth ddatganoledig.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Gair yn a. 81D(d) hepgorer (1.4.2018) gan Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/101), ergl. 1(2), **Atod. 2 para. 17(a)**

**Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/02/2023.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Trefniadau artiffisial i osgoi trethi. (See end of Document for details)

**F3** A. 81D(f) a gair mewnosod (1.4.2018) gan Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/101), ergl. 1(2), **Atod. 2 para. 17(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/02/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Trefniadau artiffisial i osgoi trethi.